**BWRDD CYD LYWODRAETHU**

**29 Gorffennaf 2018**

**CYLCH GORCHWYL**

**Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Diben y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw goruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru ac i gofnodi'r trefniadau hyn yn barhaol.

## 2. ARGYMHELLION

**2.1** I aelodau'r Bwrdd drafod a chytuno â'r aelodaeth.

**2.2** I aelodau'r Bwrdd drafod a chytuno ar y cylch gorchwyl.

## 3. CEFNDIR

**3.1** Bob blwyddyn rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n cael ei gyhoeddi o fewn Datganiadau'r Cyfrifon.

**3.2** Ar y funud, "edrych yn ôl" yw hyn ac mae'n cael ei adolygu unwaith y flwyddyn. Serch hynny, mae llywodraethu corfforaethol yn broses ddynamig sy'n digwydd drwy gydol y flwyddyn. Felly, mae'n fwy priodol i adolygu'r trefniadau llywodraethu yn rheolaidd drwy'r flwyddyn.

**3.3** Er mwyn gwneud hon yn broses gref, awgrymir ffurfio Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cynnwys staff a swyddogion craidd gydag eraill yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol pan fo angen.

## 4. GOBLYGIADAU

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | Cydraddoldeb | Dim goblygiadau cydraddoldeb ar wahân. |
| 4.2 | Ariannol | Mae llywodraethu da yn ofyn sylfaenol i sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio yn briodol. |
| 4.3 | Cyfreithiol | Mae creu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a'i gyhoeddi yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Datganiadau Cyfrifon yn ofyniad cyfreithiol. |
| 4.4 | Cymunedol | Gwnaiff llywodraethu da gynorthwyo i sicrhau fod gwasanaethau i'r cyhoedd yn cael eu cyflwyno'n briodol. |
| 4.5 | Risg | Mae rheoli risgiau yn un o elfennau'r fframwaith llywodraethu. |
| 4.6 | Cynllun Heddlu a Throsedd | Mae'r Cynllun Heddlu a Throsedd yn amlinellu'r amcanion trosfwaol am y flwyddyn. |

**Awdur Adroddiad:**

Kate Jackson
Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

☎ 01492 804070 kate.jackson@nthwales.pnn.police.uk

**BWRDD CYD LYWODRAETHU**

**CYLCH GORCHWYL DRAFFT**

## Datganiad Diben

1 Diben y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw sicrhau fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn cyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol. Diffinnir llywodraethu da fel: gwneud y peth iawn, ar yr amser iawn, ac yn y ffordd iawn. Gwelir hyn bob blwyddyn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gyhoeddir gyda'r Datganiadau Cyfrifon.

## Aelodaeth

2 Bydd y staff a'r swyddogion canlynol yn aelodau sefydlog o'r Bwrdd Cyd Lywodraethu:

Ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd:
Prif Weithredwr
Prif Swyddog Cyllid
Heddlu Gogledd Cymru
Pennaeth Cyllid ac Adnoddau
Prif Gyfrifydd
Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Ar gyfer Archwilio Mewnol:
Pennaeth Archwilio Mewnol
Prif Swyddog Gwybodaeth/Pennaeth Safonau Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth

3 Gall swyddogion a staff eraill fynychu yn ôl yr angen.

4 O dro i dro, gall aelod annibynnol o'r Cydbwyllgor Archwilio fynychu, er mwyn arsylwi.

## Cworwm

5 Rhaid i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu gael eu cynrychioli ym mhob cyfarfod.

## Gweinyddu

6 Paratoir cofnodion a chofnod gweithrediadau gan staff o Swyddfa'r Heddlu a Throsedd.

7 Dyrennir cofnodion a chofnod gweithrediadau drafft o fewn 5 diwrnod gwaith ym mhob cyfarfod ar gyfer sylwadau a chofnodion aelodau. Crëir fersiynau terfynol o flaen y cyfarfod nesaf.

## Amlder Cyfarfodydd

8 Cynhelir cyfarfodydd yn ôl yr angen, ond o leiaf 4 gwaith y flwyddyn.

**Dyletswyddau**

9 Mae dyletswyddau'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

(a) datblygu ac adolygu'r polisïau ac arferion ar lywodraethu corfforaethol a gwneud argymhellion i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl

(b) adolygu a monitro hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus uwch swyddogion a staff

(c) adolygu a monitro polisïau ac arferion ar gydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol

(d) datblygu, adolygu a monitro'r Canllaw Llywodraethu

(e) adolygu cydymffurfiaeth gyda gofynion a dadleniad llywodraethu corfforaethol

(f) gwneud unrhyw argymhellion eraill i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Prif Gwnstabl gan ei fod yn briodol ar unrhyw faes o fewn ei gwmpas dyletswyddau lle mae angen gweithredu a gwella.